**Grŵp Llywio 15 PBC**
10fed Tachwedd 2011
Wrecsam

**AGENDA**
Bydd 15fed Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam (mae map lleoliad i'w weld yma). Bydd te a choffi ar gael o 10:00 ymlaen.

| AMSER | RHIF Y PAPUR: | TEITL | ARWEINYDD |
|---|---|---|---|
| 10:00 | **Ymgynnull, te/coffi** | | |
| 10:30 | 1 | **Croeso:** Cyflwyniad ac ymddiheuriadau | |
| 10:35 | 2 | **Prif bapur:** Siarter Rhannu Data Amgylcheddol | Helen Wilkinson |
| 11:15 | 3 | **Prif bapur:** Cymhlethdod y llif data biolegol ac ymdrechion cofnodi gwirfoddolwyr | Canolfannau Cofnodi Lleol Cymru |
| **12:00** | **CINIO – Dewch â phecyn bwyd gyda chi** | | |
| 12:45 | 4 | **Cyflwyniad:** Cadwraeth Mursennod | Claire Install |
| 13:00 | | **Trafodaeth: Beth allwn ni ei wneud i helpu'r rhywogaethau hyn?** | |
| 13:15 | 5 | Y Diweddaraf am Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol | Diana Reynolds |
| 14:15 | 6 | Papurau i'w Nodi<br>- **A:** Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt – y diweddaraf<br>- **B:** Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – y diweddaraf<br>- **C:** Natur Cymru<br>- **D:**Prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Ddeddfwriaeth Bywyd Gwyllt<br>- **E:** Denu partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol<br>- **F:** Canolfannau Cofnodi Lleol yn cipio data drwy ddefnyddio technolegau symudol.<br>- **G:** Systemau Rheoli Bioamrywiaeth Torfaen<br>- **H:** Newidiadau i Restr Bryoffytau A42 | <br>Ian Guildford<br>Cynrychiolydd LBAP<br>Huw Jenkins<br>Keith Vincent<br>Karyn Pittick<br>Colin Russell<br>Russel Cryer<br>Trevor Dines |
| 14:55 | 7 | Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – materion/problemau | |
| 15:00 | 8 | Adborth gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru | |
| 15:05 | 9 | Adborth gan y Pwyllgor Sefydlog | |
| 15:10 | 10 | Cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf | |
| 15:15 | 11 | Unrhyw fater arall | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15:25 | 12 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>21ain Chwefror 2012: Canolfan Ddinesig Casnewydd | |
| 15:30 | **Te prynhawn a gorffen** | | |

Mae gwasanaeth trên rheolaidd yn rhedeg o Wrecsam. Ewch i www.nationalrail.co.uk i gael manylion.

## Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru: Cynnydd a'r Camau Nesaf

### *Cefndir/Cynnydd*

Mae i Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru 6 ffrwd waith (Llywodraethu, Adnoddau, Llif Data, Ansawdd Data, Technoleg, Sgiliau). Cymeradwyodd PBC ymdrech newydd benodol ar 2 gam gweithredu llif data wrth gasglu gwybodaeth ynghyd am unrhyw weithgarwch presennol ar ffrydiau gwaith eraill:

- Datblygu a gweithredu siarter rhannu data
- Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau llif data

Roedd y grŵp yn cydnabod y bu cynnydd ar draws y ffrydiau gwaith i gyd, er bod adolygiadau a gweithgarwch yn ymwneud â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r Corff Amgylcheddol Sengl wedi tynnu sylw'r aelodau oddi wrth weithgareddau Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru. Wrth drafod faint o amser y gallai'r aelodau ei neilltuo i'r grŵp hwnnw, cytunwyd mai'r ffordd orau ymlaen fydd cynnal cyfarfod blynyddol o'r grŵp llywio a gyrru'r gwaith ymlaen drwy grwpiau gorchwyl a gorffen penodol neu brosiect, gyda gwell diweddaru/cyfathrebu dros yr e-bost rhwng cyfarfodydd.

Roedd PBC wedi cymeradwyo'r Siarter Rhannu Data ym mis Chwefror 2011.

Ymysg y diweddariadau arwyddocaol ers hynny roedd:

- Llywodraeth Cymru, y Cyngor Cefn Gwlad a PBC wedi ymrwymo i siarter rhannu data
- Plant Link Cymru (PLINC) a'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn gweithio ar ddrafftio model llif data i gofnodwyr planhigion
- Gweithio tuag at gytundeb Cymru Gyfan i Lywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir i ddatblygu un cytundeb cyllido i bartneriaid sector cyhoeddus ar draws y 4 canolfan gofnodi leol. Mae Cymru'n arwain y ffordd gyda'i threfn i gyllido'r canolfannau cofnodi ac mae eraill, e.e. ALERC, yn gwylio'r cynnydd yn ofalus.
- Cyfres o gyrsiau hyfforddi o eiddo Sea Trust a digwyddiadau hyfforddi a gyllidir gan PBC drwy'r canolfannau cofnodi lleol
- Partneriaid yn yr Alban yn sefydlu grŵp tebyg (SEIF) i ategu Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

Un mater y tynnwyd sylw ato gan Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru fel blaenoriaeth iddo ef a Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â'r diffyg llif data bioamrywiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd i'r canolfannau cofnodi lleol.

***Cynllun/Cynigion***

Cytunwyd ar gamau gweithredu blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf fel hyn:

1) Cytuno ar a gweithredu modelau llif data terfynol er mwyn cyfnewid data rhwng cofnodwyr planhigion a'r canolfannau cofnodi lleol, a hynny'n cynnwys cyhoeddi drwy NBN Gateway
2) Cwblhau Cytundeb Canolfannau Cofnodi Lleol Cymru Gyfan a'i weithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a chynnwys cyfnewid data rhwng Llywodraeth Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chanolfannau Cofnodi Lleol
3) Datrys cyfyngiadau rhag i Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a Llywodraeth Cymru gyflenwi data i'r canolfannau cofnodi lleol
4) Paratoi achos busnes i'r canolfannau cofnodi lleol yng Nghymru fel dogfen ategol at ddogfennau ymgynghori Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol
5) Coladu manylion y rhai sy'n llofnodi'r siarter rhannu data a drafftio'r Memorandwm Dealltwriaeth i gyd-fynd ag ef
6) Coladu achosion defnyddio bioamrywiaeth i ategu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

***Pwyntiau ar gyfer Penderfyniad***

Cymeradwyo ffordd newydd Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru o weithio (cyfarfod blynyddol a diweddariadau amlach ar gynnydd prosiectau yn ystod y flwyddyn).

Cadarnhau'r cynllun am y flwyddyn i ddod.

## *Cymhlethdod y llif data biolegol a chydnabod ymdrechion cofnodi gwirfoddolwyr*

### *Cefndir/Cynnydd*

Mae gofyn cynyddol am fynediad at ddata bioamrywiaeth, a hynny'n cael ei yrru'n bennaf gan angen "i ddeall effaith cynllunio a datblygu ar yr amgylchedd naturiol"[1]. Mae'r gofynion hyn sy'n seiliedig ar bolisi wedi peri i lawer o wledydd Ewrop, yn cynnwys Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd, fabwysiadu trefn cofnodi bioamrywiaeth sy'n cael ei hariannu'n gyhoeddus ac sy'n cipio data yn benodol at ddefnydd y Llywodraeth. Mae'r drefn yn y DU yn wahanol gan ein bod yn defnyddio trefn gofnodi a ariannir yn gyhoeddus yn gymysg â gwybodaeth sy'n cael ei chasglu, ei choladu a'i lledaenu gan gofnodwyr gwirfoddol. Mae hon yn ffordd o weithredu nad yw'n costio llawer, ond mae wedi'i seilio ar ymdrech arolygu eang yn hytrach nag arolygu sy'n cael ei dargedu. Mae'n dibynnu ar i gymhelliant gwirfoddolwyr bara ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau casglu data sy'n cael eu pennu ganddyn nhw, yn hytrach na chan y rhai sydd am ddefnyddio'r data wrth wneud penderfyniadau. Ar ben hynny, mae galw cynyddol am unffurfiaeth yn cael ei roi ar system a ddatblygwyd gan wirfoddolwyr i feithrin eu diddordeb a'u dealltwriaeth nhw o'u maes bioamrywiaeth arbenigol.

I alluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyrchu at ddata bioamrywiaeth, sefydlwyd y Ganolfan Gofnodi Leol gyntaf yng Nghymru 10 mlynedd yn ôl. Wedi hynny cwblhawyd rhwydwaith llawn o Ganolfannau Cofnodi Lleol ar draws Cymru yn 2007. Yn ystod y cyfnod ers eu sefydlu, mae'r canolfannau cofnodi wedi gweld parodrwydd cynyddol ymysg gwirfoddolwyr i rannu'u data, o bosibl mewn ymgais i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a chafodd llawer o'r rhwystrau cynnar rhag llif data eu goresgyn drwy ddeialog a thrafod a chytuno. Heddiw daw rhwng 60 a 70% o'r data ar draws canolfannau cofnodi Cymru oddi wrth gofnodwyr gwirfoddol, a bob blwyddyn caiff y data ei fwydo i amrywiaeth gynyddol o brosesau penderfynu lleol a phrosesau penderfynu'r Llywodraeth ganolog.

### *Cymhlethdodau llif data*

Er bod data'n llifo i'r canolfannau cofnodi erbyn hyn yn fwy nag erioed o'r blaen, mae nifer o faterion y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r canolfannau cofnodi'n eistedd o fewn gwe gymhleth o reolwyr data, sy'n cynnwys cyrff cadwraeth lleol a chenedlaethol, Cofnodwyr Sirol lleol a Chynlluniau a Chymdeithasau Cofnodi Cenedlaethol. Hefyd mae'r NBN Gateway yn ceisio cadw copi o'r holl ddata ar lefel y DU. Gall y llif data rhwng yr holl elfennau hyn fod yn hynod gymhleth, a heb i'r holl bartïon gytuno ar lwybrau llif data clir gall nifer o broblemau godi. Mae'r rhain yn cynnwys dyblygu cofnodion yn ddianghenraid ac, yn fwy difrifol, diffyg eglurder ynglŷn â phwy sy'n cadw'r prif gopi o gofnod, sy'n gallu golygu fod dau neu ragor o fersiynau gwahanol o gofnod yn cylchredeg. Mae'r canolfannau cofnodi lleol a'r NBN Gateway yn

[1] PAMEB (2003) Policy Brief. Environmental Change Institute, Rhydychen.

ceisio darparu ffyrdd o symleiddio'r llifoedd data hyn, er enghraifft y papur a baratowyd gan NBN Trust ym mis Ionawr 2010 ar *'Developing Efficient Effective Data Flow Relations across the NBN Partnership'*, ond mae eu presenoldeb yn anochel wedi cymhlethu'r system ymhellach, er bod hynny'n angenrheidiol.

Mae'r canolfannau cofnodi lleol wedi tueddu i ganolbwyntio ar negodi mynediad at ddata drwy Gofnodwyr Lleol, sy'n coladu data am grŵp tacsonomaidd neilltuol ac o fewn ardal ddaearyddol neilltuol, a hynny'n wirfoddol ac yn aml ar ran Cynllun neu Gymdeithas Gofnodi Genedlaethol. Yn gyffredinol bu'r strategaeth hon yn effeithiol, gyda chanolfannau cofnodi Cymru'n casglu dros 5 miliwn o gofnodion rhywogaethau, llawer o'r rhain ar y mwyaf manwl posibl, er bod enghreifftiau lle byddai'n fwy priodol negodi mynediad ar lefel ranbarthol neu genedlaethol sy'n arwain at fynediad cyflymach a mwy unffurf at ddata.

Rhaid i Gofnodwyr Sirol ddelio â chymhlethdod parhaus yn y llifoedd data. Yn y gorffennol, byddai cofnodwr lleol yn tueddu i gyflwyno'i gofnodion i'r Cofnodwr Sirol priodol, a fyddai mae'n debyg yn rhoi diweddariadau blynyddol i'r Cynllun a'r Gymdeithas Genedlaethol briodol. Erbyn hyn rhaid i Gofnodwyr Sirol nid yn unig symud data o'r lefel leol i'r lefel genedlaethol o fewn eu disgyblaeth eu hunain, ond rhaid iddynt ystyried sut mae'r canolfannau cofnodi lleol a'r NBN Gateway yn cyrchu at eu data. Mae angen iddynt hwythau hefyd gyrchu at ddata y mae cofnodwyr lleol ac eraill yn eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r canolfannau lleol. Yn gynyddol, mae yna hefyd nifer o raglenni cipio data ar-lein yn cael eu datblygu, gan roi mwy fyth o opsiynau i gofnodwr unigol o ran sut i gyflwyno'i ddata, ac yn dyngedfennol i ganiatáu i'w gofnodion fod o fewn cyrraedd i'r Cofnodwr Sirol a'r ganolfan leol yr un pryd.

Mae cymhlethdod y llif data i'w briodoli'n rhannol i ddiffyg soffistigeiddrwydd ac unffurfiaeth yn y ffordd yr ydym yn rheoli data. Y sefyllfa ddelfrydol fyddai defnyddio pyrth rhyngrwyd fel bod defnyddwyr data'n gallu cyrchu at gofnodion mewn cronfeydd data gwasgaredig ar sail 'amser real', fel bod y cofnodion i gyd yn cael eu tynnu'n 'fyw' o ble bynnag y mae'r prif gopi'n cael ei gadw. Mae hefyd yn dod yn bosibl mewnbynnu cofnodion o'r maes gan ddefnyddio technolegau symudol, a allai olygu 'gwib' fynediad at gofnodion i bawb perthnasol o'r funud y gwelir y rhywogaeth. Mae'r dechnoleg i alluogi hyn oll yn dal i gael ei datblygu, a bydd rhaid wrth barodrwydd a gallu'r holl ddeiliaid data perthnasol i integreiddio ffyrdd newydd o gyrchu at ddata i'w systemau. Fodd bynnag, mae gwahanol elfennau wrthi'n cael eu treialu, e.e. cofnodion morfilaidd symudol WWBIC [2], BIS[3] yn defnyddio gwasanaethau gwe i dynnu data i mewn oddi ar NBN, a Chofnodwyr Sirol yn gwirio cofnodion sy'n cael eu dal gan Cofnod drwy eu system Cofnodi Ar-lein. Gyda'r systemau hyn ar y gorwel ac ymdrechion dygn y rhai dan sylw, mae mecanwaith yn ymddangos a fydd yn lleddfu cymhlethdod y llif data dros y blynyddoedd i ddod.

---

[2] Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru

[3] Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Bannau Brycheiniog

Yn y cyfamser rhaid inni ddibynnu, yn y rhan fwyaf o achosion, ar negodi mynediad at ddata ar y lefel fwyaf priodol a storio nifer o gopïau o ddata yn y system. Yn ystod y cyfnod hwn mae'n hanfodol ein bod yn diffinio'r llif data delfrydol rhwng yr holl bartïon perthnasol yn glir, fel bod y rhai dan sylw'n gallu cael mynediad cyflym gyda chyn lleied â phosibl o ymdrech ychwanegol. Enghraifft o hyn yw'r model llif data delfrydol sy'n datblygu o'r trafodaethau rhwng y canolfannau cofnodi lleol a chymdeithasau cofnodi planhigion yng Nghymru. Rhaid cydnabod nad yw hyn yn broses hawdd, a gallai gymryd sawl blynedd i ddatrys cymhlethdod y llifoedd data sydd wedi esblygu dros y degawdau ac, mewn rhai achosion, dros ganrifoedd. Mae hefyd yn debygol y bydd amrywiadau lleol a rhanbarthol bob amser yn senario'r llif data delfrydol. Mae'n dyngedfennol ein bod yn meddwl am elfennau llif data wrth ddatblygu rhaglenni newydd i gipio data, a hefyd dylai gwaith newydd sy'n cynhyrchu data bioamrywiaeth fapio allan a chytuno, pan fydd hynny'n bosibl, i ble y dylai'r data lifo ar y cyfle cynharaf posibl.

### Cydnabod ymdrechion cofnodwyr gwirfoddol

Fel sy'n amlwg o'r drafodaeth uchod, mae ymdrechion gwirfoddolwyr yn gwbl ganolog i system y DU i reoli data bioamrywiaeth. Amcangyfrifir fod tua 100,000 o naturiaethwyr amatur yn y DU, a bod cyfran helaeth o'r rhain yn cyfrannu tuag at gofnodi biolegol. Gyda'i gilydd, mae cofnodwyr gwirfoddol i gyfrif am oddeutu 70% o'r holl ddata bioamrywiaeth, ac mae rhai gweithgareddau, fel monitro adar, yn cael cymaint â 90% o'r data o ffynonellau gwirfoddol[4]. Er bod llawer iawn o ddata'n cael ei greu gan gofnodwyr proffesiynol, mae gan arbenigwyr gwirfoddol ran bwysig i'w chwarae o hyd yn adolygu data ac yn sicrhau ei ansawdd a'i fod yn gyflawn.

Daeth ymchwil gan Brifysgol Birmingham yn ddiweddar i'r casgliad y gellid rhoi gwerth ariannol o hyd at £5 ar bob cofnod biolegol. Felly, byddai'r cofnodion yng nghanolfannau cofnodi lleol Cymru yn werth £25 miliwn, gyda £17.5 miliwn yn fras yn dod o ffynonellau gwirfoddol. Wrth greu'r *New Atlas of the British and Irish Flora* amcangyfrifwyd fod ymdrechion gwirfoddol yn werth bron i £7 miliwn, a hyn yn cael ei gydlynu gan ddim ond un swyddog cyflogedig. Ar ben hynny amcangyfrifir y byddai'n costio dros £30 miliwn i newid model y DU am un tebyg i'r un a fabwysiadwyd yn yr Almaen[5]. Felly ar adeg pan fo gan y Llywodraeth lai o arian i'w wario, mae'r achos dros gefnogi cofnodwyr gwirfoddol yn ymddangos yn glir, yn arbennig os yw'r Llywodraeth am gyrchu at y data y maent yn ei greu.

### *Cynllun/Cynigion*

Mae angen cydnabod y cyfraniad enfawr y mae cofnodwyr gwirfoddol yn ei wneud i'r corff cynyddol o ddata bioamrywiaeth. Hefyd, dylai fod cydnabyddiaeth fod data sy'n cael ei gasglu drwy gofnodwyr gwirfoddol yn aml cystal ac weithiau'n well o ran ei ansawdd na'r hyn sy'n cael ei gasglu gan weithwyr proffesiynol. Mae hyn yn arbennig o wir am ddata sydd â llwybr adolygu arbenigol diffiniedig, sefydledig, i sicrhau fod ansawdd y data'n cael ei gynnal.

---

[4] *What counts? Volunteers and their organisations in the recording of biodiversity*, Bell et al., Biodiversity Conservation 2008, 17 3343-3454

[5] *A top-down or bottom-up model of biological recording in Britain – which is the most sustainable?*, Sarah Whild, Cyfarwyddwr Rhaglenni Cofnodi Biolegol, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Birmingham.

Rhaid i'r Llywodraeth gefnogi cofnodi gan wirfoddolwyr yn ddigonol, o ystyried ei dibyniaeth ar y data a gynhyrchir. Mae gan hyfforddiant a chydlynu tymor hir ran allweddol i'w chwarae yn cefnogi cofnodwyr gwirfoddol. Er bod Cymru yn ddiweddar wedi creu swyddog cydlynu cyflogedig gyda dwy gymdeithas gofnodi fawr (y British Trust for Ornithology a'r Botanical Society for the British Isles), arian tymor byr sydd ar gael ar gyfer y rhain ac mae'n debygol y bydd angen swyddi tebyg ar draws grwpiau buddiant eraill.

Yn aml ceir gwrthdaro rhwng yr hyn y mae cofnodwyr gwirfoddol am ei gasglu a'r hyn y mae gwneuthurwyr polisi am ei gael o'r data. Mae angen datrys y materion hyn mewn modd mwy strategol fel bod y gwirfoddolwyr hynny sy'n barod ac yn abl i helpu yn gallu helpu'n well i gasglu data sy'n ateb gofynion y gwneuthurwyr polisi.

Y gobaith yw y bydd mwy o negodi gyda chynrychiolwyr cenedlaethol ochr yn ochr â chofnodwyr gwirfoddol leol, a mwy o fabwysiadu ar fodelau i ddisgrifio'r llif data delfrydol, yn arwain at lai o'r cymhlethdodau llif data a drafodwyd uchod.

Rhaid cefnogi'r rhai sy'n helpu i reoli data, o'r man casglu hyd at ddefnyddio. Mae'r canolfannau cofnodi lleol yng Nghymru mewn sefyllfa unigryw i gynnig help i reoli'r llif data; fodd bynnag, mae rhai o'r atebion yn dechnegol a gallai fod angen buddsoddiad gan y Llywodraeth i sicrhau bod y systemau'n datblygu'r budd cyhoeddus mwyaf am yr ymdrech leiaf.

Os yw'r Llywodraeth am gyrchu at ddata bioamrywiaeth o ffynonellau lleol, mae'n bwysig iawn ei bod yn dangos ei gallu i rannu'i data ei hun yn fewnol ac yn allanol. Mae Siarter Rhannu Data Amgylcheddol Cymru, a ddatblygwyd gan Fforwm Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru, a gadarnhawyd gan PBC ac a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi egwyddorion a fydd yn caniatáu i hyn gael ei wireddu.

***Pwyntiau ar gyfer Penderfyniad***

- PBC i ymchwilio i ddulliau o gefnogi cofnodi gan wirfoddolwyr yng Nghymru, yn arbennig cefnogaeth dymor hir i gydlynu gwirfoddolwyr.
- PBC i sicrhau fod data a gynhyrchir gan wirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio yn sail i benderfyniadau.
- Aelodau PBC i fabwysiadu Siarter Rhannu Data Amgylcheddol Cymru a gweithio gyda'r canolfannau cofnodi lleol i sicrhau atebion ymarferol er mwyn cael gwell llif data.
- PBC i gefnogi datblygu a mabwysiadu atebion technolegol, lle mae hynny'n bosibl, i leihau cymhlethdod llifoedd data.

**Roy Tapping**

Rheolwr, Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylchedd Gogledd Cymru

**GRŴP LLYWIO PBC 15**
**PAPUR I'W NODI A**
**10fed Tachwedd 2011**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Troseddau yn Erbyn Bywyd Gwyllt – y Diweddaraf**

**Cynhyrchwyd gan: Y Rhingyll Ian Guildford, Heddlu De Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Cafodd canllawiau ar ddelio â throseddu mewn coedlannau eu lansio'n swyddogol ar 14 Gorffennaf yng Nghoetir Troserch, Llangennech.

Ymgyrch 'Birch' – ymchwiliad i'r fasnach anghyfreithlon mewn adar sydd wedi cael eu cymryd o'r gwyllt. Mae'r mater hwn yn dal i fynd rhagddo ac mae uned achosion cymhleth Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried troseddau ar hyn o bryd.

Ers cyfarfod diwethaf y grŵp llywio mae grŵp gorfodi troseddau bywyd gwyllt Cymru wedi cwrdd yn swyddfeydd y Cyngor Cefn Gwlad ym Mae Caerdydd. Mae'r camau gweithredu o'r cyfarfod dyddiedig 22.9.2011 ynghlwm (Atodiad 1). Un o'r camau gweithredu i'r grŵp hwn yw edrych ar flaenoriaethau Cymru o ran Troseddau Bywyd Gwyllt. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a chytunir yn derfynol arno yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Gorfodi.

Cynhelir Cynhadledd Troseddau Bywyd Gwyllt Cymru ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys ddydd Mercher 23ain Tachwedd 2011. Mae'r papurau mewn cysylltiad â hyn i'r gweld yn Atodiad 2.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn y broses o bennu swyddogion newydd i ymgymryd â rôl Swyddogion Atal Troseddau Bywyd Gwyllt o fewn y sefydliad. Disgwylir y bydd 11 swyddog newydd yn eu swydd cyn diwedd mis Tachwedd. Trefnwyd diwrnod sefydlu ar gyfer y swyddogion hyn ar 2.11.2011 yn swyddfeydd y Comisiwn Coedwigaeth yn Resolfen. Yn ogystal â hyn mae nifer o swyddogion newydd i fod i gael eu penodi yn Nyfed Powys a'r gobaith yw cynnal cwrs wythnos i Swyddogion Bywyd Gwyllt yng Nghymru, ar gyfer yr holl swyddogion sydd newydd gael eu penodi.

Mae Gweithgor Gorfodi Cymru ar Danau Gwyllt wedi cael ei ffurfio i ystyried problemau tanau gwyllt yng Nghymru, ac mae wedi cwrdd ddwywaith (15fed Gorffennaf ac 20fed Medi 2011). Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, yn cynnwys cynhyrchu canllawiau gorfodi mewn perthynas â thanau gwyllt.

Ar yr 2il Tachwedd 2011 cynhaliwyd cyfarfod o'r UK Tasking and Coordination Group a'r PAW Steering Group yn Llundain. Rhoddodd y Rhingyll Guildford adroddiad diweddaru ar faterion yn ymwneud â throseddau Bywyd Gwyllt yng Nghymru, yn cynnwys trosolwg o waith y Grŵp Gorfodi.

Ar 14eg Gorffennaf 2011 cyfarfu cynrychiolwyr o bedwar Heddlu Cymru gyda'r Prif Arolygydd Gwyn Thomas i drafod datblygu a gwella ymateb pedwar Heddlu Cymru i droseddau bywyd gwyllt. Trafodwyd nifer o faterion ac mae gweithredu ar y gweill, yn cynnwys adolygiadau mewnol ym mhob heddlu o'r ffordd y mae'r heddlu'n delio â throseddau bywyd gwyllt.

Strategaeth Ceirw – Mae'r Rhingyll Andy Scourfield yn trefnu dau sesiwn hyfforddi hanner diwrnod i swyddogion lleol sy'n patrolio ardaloedd yng nghyffiniau ardal Afon Forest. Y gobaith yw y bydd y sesiwn hyfforddi'n codi ymwybyddiaeth swyddogion lleol o'r broblem Herwhela Ceirw wrth i'r Nadolig agosáu . Bydd y sesiynau hyn yn ategu'r strategaeth Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Un maes troseddu yn gysylltiedig â bywyd gwyllt lle bu cynnydd dramatig dros y deuddeg mis diwethaf yw dwyn Cyrn Rheinoserosod o amgueddfeydd a sefydliadau eraill. Ers mis Mawrth eleni mae 50 o gyrn wedi cael eu dwyn ar draws Ewrop, yn cynnwys 5 yn y DU. Mae hyn hefyd wedi cynnwys 4 corn ffug a oedd yn cael eu harddangos yn lle'r cyrn gwreiddiol. Mae Interpol wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar grŵp troseddu cyfundrefnol y credant sy'n gyfrifol am yr achosion hyn o ddwyn.

Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Droseddau Bywyd Gwyllt – Nod y comisiwn yw cyhoeddi cynigion diwygio dros dro ym mis Mehefin 2012. Wedyn ceir ymgynghoriad cyhoeddus am dri mis. Bwriedir cyhoeddi adroddiad terfynol gydag argymhellion a mesur drafft erbyn canol 2014. Mae'r Gweithgor Gorfodi'n bwriadu cysylltu â Chomisiwn y Gyfraith i sicrhau cyfnewid barn cynnar ynglŷn â Throseddau Bywyd Gwyllt yng Nghymru.

## Achosion

Ymddangosodd Ryan Howells o Lynrhedynog yn y Rhondda yn Llys Ynadon y Rhondda ar 13eg Hydref 2011 gan bledio'n euog i dair trosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Roedd a wnelo'r rhain â bod â dau Walch Marthin yn ei feddiant, nad oedd wedi'u cofrestru'n unol â gofynion Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ynghyd â chais cofrestru ffug am un o'r adar hyn. Plediodd yn euog i'r 3 trosedd a chafodd ddirwy o £200 ynghyd ag £85 o gostau a £15 o ordal dioddefwr.

Mae enwau tri pherson wedi cael eu cyflwyno i gael eu gwysio i ymddangos yn y llys yn dilyn ymgyrch i geisio rhoi pen ar hel cocos yn anghyfreithlon ym Moryd Afon Dyfrdwy, Sir y Fflint.

Bydd yr achos yn erbyn y dyn 39 oed o Cheltenham a yrrodd Vauxhall Frontera i fyny'r Wyddfa yn cael ei glywed yn Llys y Goron bellach. Mae dyn arall hefyd yn wynebu cyhuddiadau am drosedd debyg yn ymwneud â'r un cerbyd.

Ar ôl ymchwiliad hir a chymhleth yn aml, mae dau berson wedi cael gwŷs ynglŷn â difrod trydydd parti i SoDdGA Llwyn, Llanrhaeadr. Yr achos hwn

fydd y drosedd Adran 28 gyntaf i Wasanaeth Erlyn y Goron ymgymryd ag ef a bydd yn erlyniad carreg filltir.  Mae'r achos i fod i gael ei glywed ar 31.10.2011.

Cafodd dyn 19 oed o Flaenau Ffestiniog rybudd ffurfiol gan yr heddlu ar ôl cyfaddef trosedd o dan Ddeddf Herwhela yn y Nos 1828.  Digwyddodd y drosedd yn Llangybi, lle mae'r troseddwr yn cyfaddef tresmasu ar dir a throi ei gi ar gwningod.

Mae'r achosion isod ar wahanol gamau ymchwilio:

**De Cymru**

- Cais ffug i allforio Corn Rhinoseros
- Difrod/Tarfu ar gynefin Madfall Ddŵr Gribog
- Meddu'n anghyfreithlon ar dylluanod gwyllt
- Cyflwyno adar ysglyfaethus a gymerwyd o'r gwyllt yn anghyfreithlon i'r farchnad gyfreithlon
- Difrod trydydd parti i SoDdGA yn ystod datblygiad adeiladu

**Gwent**

- Torri trwydded ystlumod
- Herwhela ceirw – tri pherson wedi'u harestio.
- Creu rhwystr ar glwydfa ystlumod
- Gwenwyno adar gwyllt yn anghyfreithlon

**Dyfed Powys**

- Gweithrediadau na chafwyd caniatâd iddynt ar SoDdGA (a restrwyd oherwydd Britheg y Gors)
- Arddangos anifeiliaid a warchodir heb drwydded
- Ymyrryd â Daear Mochyn Daear
- Rhyddhau rhywogaeth dramor – Cimwch-yr-afon America

**Gogledd Cymru**

- Ymyrryd â Daear Mochyn Daear – yn y llys 17/11/11.
- Achos baetio mochyn daear
- Difa nyth aderyn Atodlen 1
- Achos ynglŷn â chlwydfa ystlumod
- Achos difa clwydfa ystlumod
- Tarfu ar fadfallod
- Dal llinosiaid

***Cynllun/Cynigion***

***Gweithredu a Geisir***

- Llunio tîm gorchwyl a gorffen i ymgymryd â'r cam nesaf NA
- Cymeradwyo inni gario ymlaen fel yr awgrymir uchod IE
- Gofyn i holl aelodau PBC wneud sylwadau ar fformat yr adroddiad IE

## Welsh Biodiversity Partnership – wildlife crime prevention and enforcement working group.

Meeting held at Countryside Council for Wales Offices, Cardiff.
10.30am Thursday 22nd September 2011

Present
Gwyn Thomas – Dyfed Powys Police (Chair)

| | |
|---|---|
| Countryside Council for Wales (CCW) | Iwan Hughes v/c |
| Crown Prosecution Service (CPS) | Peter Jones v/c |
| Dyfed Powys Police (DPP) | Pete Charleston |
| Dyfed Powys Police | Matthew Howells |
| Environment Agency Wales (EAW) | Rhys Hughes |
| Mid and West Wales Fire and Rescue Service (MWWFRS) | Richie Hammond |
| North Wales Police (NWP)/CCW | Rob Taylor v/c |
| South Wales Police (SWP)/CCW | Ian Guildford |
| South Wales Police/Forestry Commission (FC) | Andy Scourfield |
| South Wales Police/MWWFRS | Jo Jones |
| Welsh Government (WG) | Rachel Hodson |
| Welsh Government (WG) | Mark Stafford |

Apologies.
Barbara Spence, Forestry Commission Wales
Eryl Lloyd, North Wales Police, Environment Agency Wales
Colin Thomas, Gwent Police
Sue Eddy, NWCU
Simon Williams UKBA
Keith Hogben, RSPCA
Chris John, Britsh Waterways

The group wish to thanks the Countryside Council for Wales for providing the use of office and video conferencing facilities.

Outstanding actions

| | Action | By | By whom | Outcome |
|---|---|---|---|---|
| 4 | To complete review of existing EA/NWP's information sharing and data sharing agreements (ISA & DSA's) with a view to them being utilised as a template by other partners.<br>When draft is complete consideration to be given as to whether ACPO lead can sign on behalf of all 4 Welsh forces. | October 2011 | Eryl Lloyd | ISA has been agreed between NWP & EAW. Eryl offers to be lead for taking forward work on ACPOC ISA's between EAW and other interested parties. |
| 4g | To investigate the work being done on the Gazateer project by Tony Bracey | September 2011 | Rachel Hodson | Continuing work, report to be submitted to next meeting |
| 4h | Chair to take NWP/EAW ISA to CC Arundale to explore ACPOC involvement | January 2012 | Gwyn Thomas | |
| 4i | Partners to identify points of contact with Eryl Lloyd for other ISA's to be progressed | January 2012 | All | |
| 9 | To consider how a complete picture of wildlife crime in Wales might be achieved through the collation and submission of | January 2012 | WG, RSPCA, UKBA | EA Wales submitting incident returns.<br>Welsh Government has had no |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | incident returns to the National Wildlife Crime Unit. | | | incidents to report in recent months but provide returns. Reports from UKBA and RSPCA to be made at next meeting |
| 16 | All to provide written input on their roles and responsibilities | October 31st 2011 | All | Document to be completed by 31102011 for uploading onto WBP website. Outstanding contributions to be made by 20102011 |

Actions arising from presentation provided by Patrick Lindley on bird crime in Wales

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 24 | Establish if NWCU have produced offender profiles in relation to bird crimes in particular egg collecting | October 2011 | Sue Eddy | c/f from June meeting |
| 25 | Establish what evidence there is to support a suggestion that incidents of finch trapping increase during times of economic hardship. | October 2011 | Keith Hogben | c/f from June meeting |
| 26 | Chair to meet with force WCO's (including Gwent) to discuss how to in bed wildlife crime into core Police business | June 2011 | Chair | Meeting took place August 2011. Chair will have regular meetings with force wco's after each wwcpewg meeting |
| 27 | Establish if UKBA in Wales are aware of any export of finches to Mediterranean countries | January 2012 | Simon Williams | c/f from June meeting |
| 28 | To look at NWCU's analysis of bird of prey persecution to identify any Welsh Problems and to identify actions needed to address those problems. | January 2012 | Lead WCO's | Work in progress, report to be made at next meeting |
| 29 | CCW to ensure that suspicions of criminal behaviour within the licensing system that they are actioned. | June 2011 | Iwan Hughes | CCW and WG have processes in place for such eventualities |
| 30 | RSPB to establish whether bird of prey hotline is still active | October 2011 | Patrick Lindley | Circulate result to members by email |
| 31 | RSPB to provide link to birdcrime reports | October 2011 | Patrick Lindley | Circulate result to members by email |

Actions relating to the Welsh Wildlife crime strategy delivery plan are circulated separately.

Actions relating to AOB

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 33 | Chair to meet with CFO Andy Thomas to discuss wildfires | October | Richie Hammond | Meeting still to be arranged. |
| 33a | Presentation to be made to meeting on wildfires. | January 2012 | SWP/SWFRS/MWWFRS | Wildfires to be a standing item on agenda. |
| 33b | An enforcement guide relating to wildfires to be produced | October | Andy Scourfield | Guide produced. Wildlife group has been constituted. |
| 33c | Terms of reference to be forwarded to Chair | October 2011 | Andy Scourfield | Terms of reference to be forwarded to Chair |
| 33d | | October 2011 | Jo Jones/Peter Jones | CPS to be involved in wildlife working group. Recent case |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | decision to be forwarded to CPS for comment/review |
| 34 | Welsh Deer Strategy | January 2012 | Andy Scourfield | The actions identified in the Welsh Deer Strategy accepted in principle.<br><br>The issue of road traffic collisions involving deer is not one that involves crime and therefore not an issue for this group. |
| 34a | | January 2012 | Force wco's | To consider and report on the extent of criminal offending relating to deer. |
| 35 | Law Commission review of wildlife legislation | October 2012 | Rachel Hodson | To circulate information she has received from the commissioners.<br><br>To provide Pete Charleston with Law Commission contact. |

Next meeting
It is hoped to hold the next meeting in January 2012 at Welsh Government Buildings, Aberystwyth. Date of meeting to be identified and circulated. Ian Guildford/Iwan Hughes will provide a presentation that will lead to the adoption of Welsh wildlife crime priorities by the group. (Deferred by time constraints)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

DYFED-POWYS HEDDLU POLICE

**Y 9fed GYNHADLEDD YNGHYLCH TROSEDDAU'N YMWNEUD Â BYWYD GWYLLT A'R AMGYLCHEDD 2011**
**Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2011**

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i'r 9fed Gynhadledd ynghylch Troseddau'n Ymwneud â Bywyd Gwyllt â'r Amgylchedd yn 2011. Bydd y Gynhadledd yn cael ei threfnu ar y cyd unwaith eto gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Heddlu Dyfed-Powys, â chefnogaeth Gweithgor Atal Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt a Gorfodi'r Gyfraith Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Byddem yn falch iawn pe gallech ymuno â ni yn y Gynhadledd a fydd yn **dechrau am 9.30am ar 23 Tachwedd 2011. Y lleoliad yw'r cyfleusterau cynadledda newydd yn y Ganolfan Reoli Strategol, Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin.** Mae'r ganolfan hon tua milltir o orsaf drenau Caerfyrddin.

Nod y Gynhadledd yw lleihau troseddau'n ymwneud â bywyd gwyllt a'r amgylchedd drwy annog sefydliadau sydd â diddordeb i gyfathrebu, cydweithio a chyfnewid gwybodaeth. Yn ychwanegol at hyn, drwy rannu'r wybodaeth a'r arbenigedd hwn, i ddatblygu dealltwriaeth a chynyddu ymwybyddiaeth, gallwn hybu'r gwaith o warchod a gwella'r cyfoeth o fywyd gwyllt, cynefinoedd a thirweddau sydd gennym yng Nghymru.

Bydd cyfle i arddangos gwybodaeth neu gynnwys cyhoeddiadau yn y pecynnau i'r cynadleddwyr. Cysylltwch â ni os hoffech fanteisio ar y cyfle hwn.

Os ydych chi a/neu gydweithwyr eraill yn awyddus i ddod i'r gynhadledd, dylech lenwi a dychwelyd y ffurflen archebu lle amgaeedig**.** Mae'r gynhadledd ychydig yn wahanol eleni (un diwrnod yn unig) felly ni fyddwn yn codi tâl. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi pob rhan o'r ffurflen. Cofiwch hefyd mai dim ond hyn a hyn o lefydd fydd ar gael yn y Gynhadledd eleni.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi ar eich ffurflen archebu lle ym mha iaith y byddai'n well gennych siarad yn y Gynhadledd. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a fydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y trafodaethau.

Amgaeir agenda ddrafft er gwybodaeth.

Gobeithio y bydd y Gynhadledd yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi.

**Yr eiddoch yn gywir**

**Ian Arundale**
**Prif Gwnstabl**
**Heddlu Dyfed-Powys**

**Yr eiddoch yn gywir**

**Roger Thomas**
**Prif Weithredwr**
**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

DYFED - POWYS HEDDLU POLICE

**THE 9th WILDLIFE AND ENVIRONMENTAL CRIME CONFERENCE 2011**
**Wednesday 23rd November 2011**

We are very pleased to invite you to the 9th Wildlife and Environmental Crime Conference 2011. The Conference will once again be jointly hosted by the Countryside Council for Wales and Dyfed-Powys Police, supported by the Welsh Biodiversity Partnership – Wildlife Crime Prevention and Enforcement Working Group. We would very much like you to join us for the Conference which will **commence at 0930hrs on the 23rd November 2011. The venue is the newly opened conference facility at the Strategic Command Centre, Police HQ, Llangunnor, Carmarthen.** This facility is situated approximately one mile from Carmarthen railway station.

The aim of the Conference is to reduce wildlife and environmental crime by encouraging communication, co-operation and the exchange of information between interested organisations. Also by sharing this knowledge and expertise to further understanding and raise awareness, we can advance the conservation and enhancement of the rich wildlife, habitat and landscapes of Wales.

There will be the opportunity to display information or include publications within the delegate packs. Please contact us if you would like to take up this opportunity.

If you and/or other colleagues would like to attend, please complete and return the enclosed booking form**.** This year, due to the change in the format of the conference (one day only), there will be no charge. Please make sure that you complete your form in full. Please also note that spaces at this year's Conference will be limited.

We would appreciate it if you could kindly indicate on your booking form in which language you would prefer to contribute at the Conference. This will help us to determine whether or not simultaneous translation will be required during the proceedings.

A draft agenda is enclosed for your information.

We hope you will find the Conference both interesting and useful.

**Yours faithfully**

**Ian Arundale**
**Chief Constable**
**Dyfed-Powys Police**

**Yours faithfully**

**Roger Thomas**
**Chief Executive**
**Countryside Council for Wales**

| Cynhadledd ynghylch Troseddau'n ymwneud â Bywyd Gwyllt a'r Amgylchedd 2011 | The Wildlife and Environmental Crime Conference 2011 |
|---|---|
| **DYDD MERCHER 23 TACHWEDD 2011** | **WEDNESDAY 23 NOVEMBER 2011** |

## Agenda

| | |
|---|---|
| 09.30 am – 10.00 am | **Cyrraedd a chofrestru**<br>Arrival and registration |
| 10.00 am | **Agor y Gynhadledd**<br>*Y Prif Gwnstabl Ian Arundale – Heddlu Dyfed-Powys*<br>**Opening of Conference**<br>*Chief Constable Ian Arundale – Dyfed-Powys Police* |
| 10.10 am | Roger Thomas<br>Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>Chief Executive, Countryside Council for Wales |
| 10.20 am | Astudiaeth Achos 1 / Case Study 1<br>**Prosiect Gweilch y Ddyfi - Dyfi Osprey Project**<br>Emyr Evans – Rheolwr y Prosiect / Project Manager |
| 10.50 am | Astudiaeth Achos 2 / Case Study 2<br>**Gwastraff Anghyfreithlon – Trosedd yn erbyn Bywyd Gwyllt?**<br>**Illegal Waste - a Wildlife Crime?**<br>*Clive Walker & Steve Barker*<br>*Swyddogion Gorfodi, Tîm Troseddau'n ymwneud â'r Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru*<br>*Enforcement Officers, Environmental Crime Team, Environment Agency Wales* |
| 11.10 am | **Te / Coffi**<br>Tea / Coffee |
| 11.25 am | Astudiaeth Achos 3 – **SoDdGA**<br>Case Study 3 – **SSSI**<br>*PS Rob Taylor – Heddlu Gogledd Cymru/CCGC*<br>*North Wales Police/CCW* |

| | |
|---|---|
| 11.45 am | Astudiaeth Achos 4 – **'Carchar am Daflu Gwastraff Anghyfreithlon'**<br>Case Study 4 - **'Prison for Fly tipper'**<br>*PS Andy Scourfield –*<br>*Heddlu De Cymru/Y Comisiwn Coedwigaeth*<br>*South Wales Police/Forestry Commission*<br>*Leighton Case –*<br>*Uwch Swyddog Gorfodi Gwastraff, Cyngor Castell-nedd Port Talbot*<br>*Senior Waste Enforcement Officer, Neath Port Talbot Council* |
| 12.05 am | Cwestiynau a threfniadau'r gweithdai<br>Questions and workshop arrangements |
| 12.30 pm | **Cinio**/Lunch |

| Gweithdai – bydd y cynrychiolwyr eisoes wedi dewis dau weithdy o'r rhestr isod | Workshops – delegates will have already chosen two workshops from those below |
|---|---|
| **1. Gwybodaeth**<br>*Colin Pirie, Uwch Swyddog Gwybodaeth, Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwyllt* | **1. Intelligence**<br>*Colin Pirie, Senior Intelligence Officer, National Wildlife Crime Unit* |
| **2. RSPB**<br>*Patrick Lindley, Uwch Swyddog Cadwraeth (Rhywogaethau), RSPB, Swyddfa Gogledd Cymru* | **2. RSPB**<br>*Patrick Lindley, Senior Conservation Officer (Species), RSPB, North Wales Office* |
| **3. Hela**<br>*Steve Harris, Swyddog Ymchwiliadau, Y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon* | **3. Hunting**<br>*Steve Harris, Investigations Officer, League Against Cruel Sports* |
| **4. Cynnyrch fferyllol, llysieuol a chosmetig yn y DU ac yn y fasnach ryngwladol**<br>*Madeleine Groves, Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew*<br>*Guy Clarke, Asiantaeth Ffiniau'r DU* | **4. Pharmaceutical, herbal and cosmetic products in UK and international trade**<br>*Madeleine Groves, Royal Botanic Gardens, Kew*<br>*Guy Clarke, United Kingdom Border Agency* |

| | |
|---|---|
| 13.30 pm – 14.30 pm | Gweithdy 1 / Workshop 1 |
| 14.35 pm – 15.35 pm | Gweithdy 2 / Workshop 2 |
| 15.35 pm | **Te / Coffi**<br>Tea / Coffee |
| 15.50 pm | Sesiwn cloi / Closing session |
| 16.15 pm | Diwedd / Close |

**THE WILDLIFE AND ENVIRONMENTAL CRIME CONFERENCE 2011**
**BOOKING FORM**
**(Please complete in BLOCK CAPITALS)**

**Full Name (Title)**…………………………………………………….……….…

**Organisation:**……………………………………………………………………………………...

**Position:**………………………………………………………………………………………...

**Correspondence Address:**……………………………………………………….…………

……………………………………………………………………………………………………...

…………………………………….……**Postcode:**…………………………………………...

**Telephone No:**…………………………………**Fax Number:**……………………………..…..

**E-mail Address:**…………………………………………………………………………………...

**Signed:**………………………………………………. **Date:**…………………………..

PLEASE SELECT **TWO** FROM THE WORKSHOPS LISTED

| | X |
|---|---|
| **Intelligence**<br>*Colin Pirie, Senior Intelligence Officer, National Wildlife Crime Unit* | ☐ |
| **RSPB**<br>*Patrick Lindley, Senior Conservation Officer (Species), RSPB, North Wales Office* | ☐ |
| **Hunting**<br>*Steve Harris, Investigations Officer, League Against Cruel Sports* | ☐ |
| **Pharmaceutical, herbal and cosmetic products in UK and international trade**<br>*Madeleine Groves, Royal Botanic Gardens, Kew.*<br>*Guy Clarke, United Kingdom Border Agency* | ☐ |

**Buffet lunch provided -** ***Please advise of any dietary requirements***

**PLEASE TICK:** I would prefer to contribute: in Welsh ☐ in English ☐

**Please contact Matthew Howells on the e-mail address below if you wish to contribute to the delegates pack**

Please complete one booking form for each delegate. Please keep a copy of this booking form for reference purposes.

**Please return this form by 7th November 2011 to: june.harries@ccw.gov.uk, or CCW, Beechwood Office, Talley Road, Llandeilo, Carmarthenshire. Tel: 01558 825800 Fax 01558 823467**
**For further details please e-mail: matthew.howells@dyfed-powys.pnn.police.uk**

**Y GYNHADLEDD YNGHYLCH TROSEDDAU'N YMWNEUD Â BYWYD GWYLLT A'R AMGYLCHEDD 2011**
**FFURFLEN ARCHEBU LLE**
**(A fyddech gystal â llenwi'r ffurflen mewn PRIF LYTHRENNAU)**

**Enw Llawn (Teitl)**:……………………………………………………….……….…

**Sefydliad:**……………………………………………………………………………...

**Swydd:**…………………………………………………………………………………...

**Cyfeiriad Gohebu:**……………………………………………………….…………

…………………………………………………………………………………………...

……………………………………….……**Côd Post:**……………………………………………...

**Rhif Ffôn:**…………………………………**Rhif Ffacs:**………………………………….…..

**Cyfeiriad E-bost:**……………………………………………………………………...

**Arwyddwyd:………………………………………………. Dyddiad:…………………………..**

DEWISWCH **DDAU** WEITHDY O'R RHESTR ISOD

| | X |
|---|---|
| **Gwybodaeth**<br>*Colin Pirie, Uwch Swyddog Gwybodaeth, Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwyllt* | ☐ |
| **RSPB**<br>*Patrick Lindley, Uwch Swyddog Cadwraeth (Rhywogaethau), RSPB, Swyddfa Gogledd Cymru* | ☐ |
| **Hela**<br>*Steve Harris, Swyddog Ymchwiliadau, Y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon* | ☐ |
| **Cynnyrch fferyllol, llysieuol a chosmetig yn y DU ac yn y fasnach ryngwladol**<br>*Madeleine Groves, Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew*<br>*Guy Clarke, Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig* | ☐ |

**Darperir cinio bwffe** – ***Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion deietegol***

TICIWCH: Gwell gennyf gyfrannu: yn Gymraeg ☐ yn Saesneg ☐

**Cysylltwch â Matthew Howells yn y cyfeiriad e-bost isod os hoffech gyfrannu at y pecyn i'r cynadleddwyr.**

A fyddech gystal â llenwi un ffurflen ar gyfer pob cynrychiolydd. Cofiwch gadw copi o'r ffurflen hon fel y gallwch gyfeirio ati pe bai angen.
**A fyddech gystal â llenwi'r ffurflen yma a'i hanfon erbyn 7 Tachwedd 2011 at: june.harries@ccw.gov.uk, neu i CCGC, Swyddfa Beechwood, Ffordd Talley, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin. Rhif ffôn 01558 825800 Ffacs 01558 823467**
**Am fanylion pellach anfonwch e-bost at: matthew.howells@dyfed-powys.pnn.police.uk**

**GRŴP LLYWIO PBC 15**
**PAPUR I'W NODI B**
**10fed Tachwedd 2011**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Gweithredu gan Grŵp Swyddogion Bioamrywiaeth yr Awdurdodau Lleol a'r Parciau Cenedlaethol**

**Cynhyrchwyd gan: Grwpiau Swyddogion Bioamrywiaeth yr Awdurdodau Lleol a'r Parciau Cenedlaethol**

***Cefndir/Cynnydd***

Mae swyddogion bioamrywiaeth awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol o dde a gogledd Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb ac i symud cynlluniau rhanbarthol a chynlluniau ar y cyd ymlaen. Mae'r papur hwn i'w nodi yn crynhoi rhai llwyddiannau, prosiectau rhanbarthol a phrosiectau a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol ar draws ardaloedd LBAP Cymru.

**Llwyddiannau**

- **Powys: Cynllun Mynediad Afon Cain**: Ardal o dir gwlyb cymunedol sy'n cynnwys llynnoedd, pyllau bas a phantiau gyda phlannu brodorol ar hen dir pori, a fwriadwyd i wella ansawdd yr afon. Cyflawnwyd gan wirfoddolwyr o grwpiau cymunedol lleol ac ysgolion gyda chymorth Asiantaeth yr Amgylchedd, a grant bach i'r cynllun plannu rhywogaethau brodorol yn deillio o'r Strategaeth Gymunedol. Mae lluniau i'w gweld ar: http://www.goodmangraphics.co.uk/Llanfyllin-Riverside-Project/
- **Conwy: Prosiect Gwella Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:** Mae CBSC wedi rhoi mandad corfforaethol i gynhyrchu Prosiect Gwella Bioamrywiaeth. Mae'r Prosiect Gwella Bioamrywiaeth wedi nodi ffyrdd i'r Cyngor cyfan wella'i arferion er budd bioamrywiaeth. Bydd cyfarwyddyd o'r top yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff yr argymhellion eu gweithredu..
- **Powys: Prosiect Bywyd Gwyllt Cymunedol Rhaeadr Gwy**: Dan arweiniad Rhaeadr 2000, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr o'r gymdeithas natur leol, Rhayader by Nature, ac Ymddiriedolaeth Natur Maesyfed. Fe'i cyllidwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad, cronfa Arian i Bawb y Loteri Fawr, Cynllun Croeso Cymunedol Cyngor Sir Powys a chronfa Grant Cymorth Noddi'r Gymuned. Tri llwybr gydag arwyddion, taflenni a darluniau ynddynt, meinciau gwylio a phaneli dehongli. Hefyd, pedair "Ardal Bywyd Gwyllt", torlan nythu artiffisial i wenoliaid y glennydd uwchlaw afon Gwy, blychau nythu i wenoliaid du wedi'u codi ar dŵr eglwys St Clement.
- **Gwynedd: Gweithdai Cynefinoedd:** Yn dod â'r Bartneriaeth Bioamrywiaeth Leol a grwpiau ecosystemau ynghyd i drafod gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddo yn yr ardal, yn arbennig weithredu gwerth chweil gyda chyfraniad gan grwpiau ecosystemau.
- **Sir Gaerfyrddin: Prosiect Comin Mynydd Llangyndeyrn**: Arian o'r gronfa Ardoll Agregau i ailsefydlu tir pori ar y comin ac adfer cynefinoedd o dan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

- **Casnewydd: Prosiect Bioamrywiaeth mewn Ysgolion**: Swyddog Bioamrywiaeth mewn Ysgolion yn ei swydd am 2½ flynedd yn darparu cefnogaeth bioamrywiaeth ac addysg awyr agored i 58 o ysgolion yng Nghasnewydd, a chreu cynefinoedd a'u rheoli ar dir ysgolion i ddarparu cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored yn unol ag amcanion y cwricwlwm. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd wedi datblygu prosiect tebyg ar gyfer ysgolion ym Mlaenau Gwent.
- **Prosiectau Ymwybyddiaeth:** Gwynedd: Prosiect draenogiaid: cofnodi draenogiaid, ymgysylltu â'r gymuned, ymweld ag ysgolion. Prosiectau Ysgolion Conwy ac Ynys Môn; prosiect garddio ar budd bywyd gwyllt Sir Ddinbych.

**Astudiaethau achos o brosiectau rhanbarthol:**

- **Sir y Fflint/Sir Ddinbych: Prosiect Jac y Neidiwr Dyffryn Alun**: yn gweithio gyda grŵp prosiect mawr yn cynnwys awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, grwpiau cadwraeth a gwirfoddoli lleol, i geisio cael gwared â Jac y Neidiwr o ddyffryn Alun – yn ei 3edd flwyddyn erbyn hyn. Mae'r prosiect wedi llwyddo i leihau faint o'r planhigyn sydd yn rhan uchaf y dalgylch a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â Jac y Neidiwr.
- **Conwy/Sir Ddinbych/Sir y Fflint/Wrecsam: Prosiect Tylluanod Gwyn Gogledd-ddwyrain Cymru:** Dod i ddeall dosbarthiad y dylluan wen ar draws gogledd-ddwyrain Cymru. Mae'r prosiect yn codi ymwybyddiaeth, yn gosod ac yn monitro blychau nythu ac yn rhoi cyngor i dirfeddianwyr.
- **Sir Ddinbych/Sir y Fflint/Wrecsam: Prosiect Ystlumod Trefol:** 2il flwyddyn y prosiect hwn sy'n gweithio gyda'r Bat Conservation Trust i gael cymunedau i gofnodi ystlumod drwy roi benthyg synwyryddion i wirfoddolwyr sy'n cynnal arolwg ystlumod sylfaenol yn eu hardal leol.
- **Prosiect Bwydo Adar dros y Gaeaf De-ddwyrain Cymru**: Mae 5 Awdurdod Lleol (Torfaen, Casnewydd, Sir Fynwy, Caerffili, Blaenau Gwent) ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent wedi rhoi prosiect ar waith i hau cnydau a darparu cyfleoedd bwydo i adar tir fferm dros y gaeaf, gan ddefnyddio arian oddi wrth Amgylchedd Cymru.
- **Prosiect Gwlyptiroedd De Cymru**: Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn helpu awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru (Caerffili, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy) i nodi a datblygu cyfres o brosiectau bach gan gefnogi'r rhain â £30,000 o gyllid ar y cyd. Y nod fydd adfer a chreu cynefinoedd gwlyptir yn cynnwys pyllau, coetiroedd gwlyb a chorstir.

**Prosiectau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol**

- Sir y Fflint/Sir Ddinbych: Prosiect Tirweddau Byw Alun a Wheeler sy'n canolbwyntio ar gydgysylltu cynefinoedd ar hyd dyffrynnoedd yr afonydd.
- System Rheoli Bioamrywiaeth Torfaen: Mae Russell Cryer (CBST) wrthi ar hyn o bryd yn datblygu 'system rheoli bioamrywiaegth' fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n esblygu; mae'n edrych ar newid y broses benderfynu fel ei bod yn fwy agored, gan ddefnyddio system sy'n graddio safleoedd.
- Gogledd Cymru: Prosiect Ymwybyddiaeth a Chofnodi yn gweithio gyda Cofnod

- Conwy: Ymchwiliad i ddatblygu prosiect ecosystemau glannau afonydd ar raddfa fawr
- Sir Gaerfyrddin: Prosiect i glirio Rhafnwydden y Môr ar dwyni Pen-bre - £20k o gyllid i wneud y gwaith y gaeaf hwn.
- Conwy: Ymchwilio i brosiect rhostiroedd ar raddfa fawr ynghyd â'r RSPB a phartneriaid eraill
- Prosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt De-ddwyrain Cymru: Mae Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru, yr Ymddiriedolaeth Natur a SEWBReC wedi llunio gweithgor i edrych ar brosiect Safleoedd Bywyd Gwyllt rhanbarthol gyda'r nod o reoli cynefinoedd ar safleoedd glaswelltir a gweundir y mae angen eu hadfer.

**Gweithredu a Geisir**

- Fod y Grŵp Llywio'n nodi a chadarnhau gwaith grwpiau swyddogion y Cynlluniau Gweithredu BIoamrywiaeth Lleol

!E/NA

**GRŴP LLYWIO PBC 15**
**PAPUR I'W NODI C**
**10fed Tachwedd 2011**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Natur Cymru – y diweddaraf a phle**

**Cynhyrchwyd gan: Huw Jenkins, Rheolwr Marchnata, Natur Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Mae **Natur Cymru** yn helpu aelodau o PBC i gyfathrebu drwy'r 1,200 o danysgrifwyr / 2,800+ o ddarllenwyr sydd gan y cylchgrawn. Mae aelodau o **NATUR** (Sefydliad Rheolaeth Cefn Gwlad a'r Arfordir Cymru) yn cael tanysgrifiad i Natur Cymru fel rhan o'u buddion aelodaeth.

Roedd 40fed rhifyn Natur Cymru yn ymdrin ag ystod eang o bynciau yn cynnwys ymlusgiaid, gwyfynod, BTO Cymru, cennau, cadwraeth yr ucheldir, efwr enfawr, ac ati. Bydd i rifyn 41 (Rhagfyr 2011) thema forol ynghyd ag erthyglau'n sôn am lwydni llysnafedd a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Thema rhifyn 42 fydd Bannau Brycheiniog.

Rydym wedi cychwyn ar nodwedd **'50 mlynedd yn ôl'** i dynnu sylw at y broses o ddigido ein rhagflaenydd, Nature in Wales, a gyhoeddwyd rhwng 1955 a 1987. O'u cyfuno, mae Natur Cymru a Nature in Wales yn adnodd gwerthfawr i ymchwilwyr.

Yn ogystal â'r cylchgrawn rydym yn helpu i gyfleu negeseuon drwy gyfryngau cymdeithasol (blogiau, trydar ac YouTube) ac yn ddiweddar ychwanegwyd ffilm newydd am Bartneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn.

I annog trafodaeth ac ymwybyddiaeth o faterion cadwraeth rydym newydd lansio'r 4edd gystadleuaeth ysgrifennu gyda thros £1,000 o wobrau'n cael eu rhoi gan WWF Cymru, Tŷ Newydd a'r Ymddiriedolaethau Natur. Y dyddiad cau yw 31ain Mawrth 2012. Mae'r manylion llawn ar **http://www.inspired-by-nature.org.uk/**

***Cynllun/Cynigion***

Os oes gennych stori a fyddai'n gwneud erthygl dda ar gyfer Natur Cymru -
Os oes angen help arnoch i greu astudiaethau achos, ffilmiau, blogiau ac ati -
Os hoffech gyfrannu at flog Natur Cymru -
Cofiwch roi gwybod inni.

***Gweithredu a Geisir***

Rydym yn gofyn i holl aelodau PBC gysylltu â ni os oes ganddynt stori i'w dweud a helpu i hyrwyddo'r gystadleuaeth ysgrifennu.

Cyswllt: huw.naturcymru@btinternet.com 01766 590272.

**GRŴP LLYWIO PBC 15**
**PAPUR I'W NODI D**
**10fed Tachwedd 2011**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Gyfraith Rheoli Bywyd Gwyllt**

**Cynhyrchwyd gan: Comisiwn y Gyfraith.** Mae Comisiwn y Gyfraith yn asiantaeth annibynnol a gafodd ei sefydlu gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, gyda'r dasg o adolygu cyfraith Cymru a Lloegr. Mae ein proses arferol yn para tua tair blynedd ac yn gorffen gydag adroddiad a Mesur drafft i'w gyflwyno gerbron y Senedd. Gallwn hefyd argymell deddfwriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru os ydym yn credu fod hynny'n briodol. Cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol a'r Mesur drafft rydym yn ymgynghori'n helaeth – yn anffurfiol a thrwy bapur ymgynghori yn nodi'n cynigion dros dro manwl i gyflwyno newidiadau.

***Cefndir/Cynnydd***

Mae prosiect ar y gweill gennym yn edrych ar gyfraith rheoli bywyd gwyllt fel rhan o'n 11eg rhaglen i ddiwygio'r gyfraith. DEFRA a awgrymodd y prosiect. Lansiwyd yr 11eg rhaglen i ddiwygio'r gyfraith ar 18 Gorffennaf 2011.

Mae'n prosiect yn canolbwyntio ar y darpariaethau hynny sy'n caniatáu rheoli bywyd gwyllt, er enghraifft adrannau perthnasol Rhan 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, y Ddeddfau Helwriaeth, Deddf Ceirw 1991, Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae'r Ddeddf gyntaf yn trosi llawer o'r rhwymedigaethau a roddwyd ar y DU gan Gyfarwyddeb 79/409/EEC – y Gyfarwyddeb Adar. Mae'r olaf yn trosi llawer o'r rhwymedigaethau yng Nghyfarwyddeb 92/43/EEC – y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Er bod ein prosiect yn golygu ystyried darpariaethau cynefinoedd, a rhwymedigaethau amgylcheddol ehangach fel rhan o'r cyd-destun, mae ein cylch gwaith wedi'i gyfyngu i ddiwygio'r darpariaethau sy'n ymdrin yn benodol â rhywogaethau.

***Cynllun/Cynigion***

Bwriad y prosiect yw creu cyfundrefn gyfreithiol symlach sy'n sefydlu cydbwysedd priodol rhwng y buddiannau (posibl) ym maes rheoli bywyd gwyllt sy'n gwrthdaro yn erbyn ei gilydd, ac yn caniatáu i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r gyfraith ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau yn glir.

Bydd y prosiect yn ystyried:

- darpariaethau cadwraeth i boblogaethau rhywogaethau;

- darpariaethau sy’n caniatáu ymelwa, fel y Deddfau Helwriaeth;
- darpariaethau lles a chreulondeb mewn perthynas ag anifeiliaid gwyllt;
- tramgwyddau troseddol yn gysylltiedig â bywyd gwyllt, yn cynnwys y rhai’n ymwneud â gwerthu anifeiliaid gwyllt ac elfennau sy’n deillio ohonynt; a
- rheoli Rhywogaethau Goresgynnol Tramor.

Ar hyn o bryd rydym yng nghyfnod rhagarweiniol datblygu’r diwygiadau y byddwn yn eu hawgrymu. Rydym am archwilio dulliau gwahanol i’r rhai sydd wedi cael eu mabwysiadu ar hyn o bryd yn y fframwaith rheoleiddio. Wrth gwrs, byddai rhaid i unrhyw opsiwn a ddewisir drosi rhwymedigaethau’r UE arnom yn llawn.

Nid yw pennu’r lefel o amddiffyniad a roddir i rywogaeth neilltuol yn rhan o’r prosiect. Hefyd, mae diwygio Deddf Hela 2004, neu’i diddymu, wedi cael ei adael allan yn benodol o’r prosiect.

Bwriadwn gyhoeddi’n papur ymgynghori ar reoli bywyd gwyllt yn haf 2012. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan fis Hydref 2012.

**Cyswllt:** keith.vincent@lawcommission.gsi.gov.uk

***Gweithredu a Geisir***

- Gofyn i holl aelodau PBC gymryd rhan yn yr ymgynghoriad IE

**Teitl: Denu partneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol**

**Cynhyrchwyd gan: Uned Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Mae Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn dweud fod angen defnyddio'r dychymyg wrth ystyried cyllido a darparu adnoddau ar gyfer gweithredu ym maes bioamrywiaeth a, lle mae hynny'n bosibl, integreiddio canlyniadau i natur gyda chanlyniadau cynaliadwy eraill.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mentrau cymdeithasol fel busnesau sydd ag amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol yn bennaf ac sydd gan mwyaf yn ailfuddsoddi'r elw yn y busnesau neu'r cymunedau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi modelau busnes mentrau cymdeithasol drwy'r arian y mae'n ei roi i gyrff cymorth busnes arbenigol fel Canolfan Cydweithredol Cymru; Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu; a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru. Mae arian yn cael ei ddarparu hefyd i'r corff sy'n cynrychioli'r sector, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, sy'n cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog dros Fusnes, Menter, Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae llawer o enghreifftiau o fentrau cymdeithasol sy'n arbenigo mewn materion amgylcheddol ac, yn arbennig, fioamrywiaeth. Yn eu mysg mae Ecodyfi a'i waith yn arwain Rhaglen Biosffer UNESCO; prosiect Coetir Longwood a gefnogir gan Coedlleol; Ymddiriedolaeth Tir Cwm Harry sy'n rhan o brosiect bio rhanbarthol mawr; a Moelyci.

www.ecodyfi.org.uk

http://www.longwood-lampeter.org.uk/history.html

http://www.coedlleol.org.uk/index.php?option=com_content&view=article&id=9&Itemid=12&lang=en

http://www.cwmharrylandtrust.org.uk/about.html

http://www.moelyci.org

Mae cynhadledd ar fentrau cymdeithasol yn cael ei chynnal ar 16 ac 17 Tachwedd yng Nghanolfn Richard yn Abertawe, wedi'i threfnu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a byddai o fudd i unrhyw un sydd am ddysgu mwy am y maes hwn yn ogystal â'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector:

www.walescooperative.org/**social-enterprise**-wales-**conference-2011**

***Cynllun/Cynigion***

Hoffem gynnig cyfle i bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol fanteisio ar gyngor ac arweiniad am ddim ar sut i sefydlu mentrau cymdeithasol lleol a allai arwain at weithredu ar fioamrywiaeth ochr yn ochr â chanlyniadau economaidd neu gymdeithasol ar draws Cymru.

Mae'r partneriaethau'n cwrdd yn rheolaidd mewn tri grŵp rhanbarthol: Grŵp Gweithredu Bioamrywiaeth Gwent Fwyaf; Grŵp Gweithredu Bioamrywiaeth Morgannwg; a Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru.

Hoffem gynnig cyflwyniadau – yn rhoi cyflwyniad byr i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a throsolwg o'r potensial ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru – i bob un o'r cyfarfodydd rhanbarthol yn ystod 2012.

***Gweithredu a Geisir***

- Cymeradwyo inni gario ymlaen fel sy'n cael ei awgrymu uchod IE/NA

**GRŴP LLYWIO PBC 15**
**PAPUR I'W NODI F**
**10fed Tachwedd 2011**

**Teitl: Canolfannau Cofnodi Lleol yn cipio data drwy ddefnyddio technolegau symudol.**

**Cynhyrchwyd gan: Colin Russell, Rheolwr, Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru**

## *Cefndir/Cynnydd*

Mae casglu a rheoli data mewn fformat gofodol yn gallu cymryd llawer o amser a chreu problemau dyblygu, a gall fod angen rhagor o amser ac adnoddau i'w ddilysu. Yn ddiweddar daeth technolegau newydd ar gael am gost fforddiadwy drwy i'r Environmental Systems Research Institute (ESRI) ryddhau cynllun trwydded di-elw gan alluogi Canolfan Gorllewin Cymru i ddarparu ateb sy'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau.

Yn 2010 roedd Sea Trust yn chwilio am system a fyddai'n symleiddio'r ffordd y mae'n rheoli data, gan osgoi'r angen am arolygon papur ar gychod. Roedd am lwytho'r data i fyny'n gyflym ac effeithlon i'n prif gronfa ddata yn y Ganolfan Gofnodi Leol. Y system a ddewiswyd oedd rhaglen gofnodi symudol, ArcGIS Mobile (AGM), a gynlluniwyd ar gyfer dyfeisiau sgrin gyffwrdd, lle mae modd llwytho data i fyny i gronfa ddata ar Weinydd ArcGIS (AGS) sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Gorllewin Cymru cyn gynted ag y mae cyswllt rhyngrwyd neu rwydwaith cellog ar gael.

Cafodd Sea Trust arian ar gyfer y prosiect gan y Cyngor Cefn Gwlad a Briggs Marine, a buddsoddodd Canolfan Gorllewin Cymru i gynyddu capasiti'r gweinydd ac i osod AGS. Ochr yn ochr â hyn datblygwyd rhaglen symudol i'w defnyddio ar gyfrifiadur llechen a/neu ffôn glyfar gan Dr. Rob Davies yn gweithio gyda Cliff Benson a'i gydweithwyr yn Sea Trust. Cynhaliwyd treialon ar y lan a'r môr nes oedd y system yn ateb y gofyn. Bellach mae'n cael ei defnyddio gan Sea Trust ar bob arolwg cwch a fferi a chafwyd dangosiad byw o'r gwaith cipio a golygu data, mewn amser real, yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ddiweddar.

## *Cynllun/Cynigion*

Hoffai Canolfan Gorllewin Cymru symud ymlaen gyda'r dechnoleg, i ddatblygu rhaglenni wedi'u teilwrio ar gyfer cofnodi daearol a fyddai o fantais i amryw o gofnodwyr, grwpiau a chymdeithasau. Mae teilwrio rhaglenni i'r grŵp defnyddwyr a defnyddio sgriniau cyffwrdd a chwymplenni'n golygu, unwaith y mae'r rhaglenni wedi cael eu datblygu, eu bod yn hawdd eu defnyddio ac nad oes angen fawr o hyfforddiant. Mae defnyddio'r system yn golygu fod y data'n cael ei gipio unwaith i un lleoliad a'i fod ar gael i'w weld neu i'w olygu ar fwrdd gwaith neu gan weithwyr maes drwy rwydwaith cellog. Byddai'r rhyngwyneb

â’r we hefyd yn cael ei deilwrio i ofynion y cleient.  Unwaith y mae’r data wedi cael ei gipio gellir ei gyhoeddi drwy fformatau geo-ofodol agored sy’n golygu y gallai cleientiaid canolfannau cofnodi lleol, sydd â nifer o swyddfeydd, gyrchu at y data’n gyflym. Mae hyn ynghyd â defnyddio rhwydweithiau cellog i gipio’r data yn dod â phosibiliadau newydd e.e. casglu ymdrechion monitro/arolygu ynghyd yn gyflym o fannau sydd ar wasgar yn eang neu efallai mewn ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol.

***Pwyntiau ar gyfer Penderfyniad***

Nodi fod Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn croesawu ymholiadau gan aelodau sy’n dymuno cael rhagor o wybodaeth neu a hoffai weithio gyda’r Ganolfan i ddatblygu rhaglenni.

**GRŴP LLYWIO PBC 15**
**PAPUR I'W NODI G**
**10fed Tachwedd 2011**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Prosiect Systemau Rheoli Bioamrywiaeth**

**Cynhyrchwyd gan: Russell Cryer: Swyddog Prosiect (CBS Torfaen)**

## *Cefndir/Cynnydd*

Dyma'r papur cyntaf i'r grŵp llywio.
Mae'r prosiect wedi bod yn weithredol er mis Gorffennaf 2011. Mae i fod i orffen ar 15 Rhagfyr 2011.

## *Cynllun/Cynigion*

Mae'r prosiect Systemau Rheoli Bioamrywiaeth yn datblygu ffyrdd newydd o weithio i reoli materion bioamrywiaeth wrth gynllunio a dylunio/dechrau prosiectau yn Nhorfaen. Mae'r prosiect yn awgrymu dosbarthu tir ar bedair haen o safbwynt bioamrywiaeth. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth wedi'i thargedu at y penderfyniadau a wneir mewn gwahanol Feysydd Gwasanaeth yn y Cyngor. Gellid defnyddio'r drefn hon i reoli pob gwasanaeth ecosystem fel ffordd gydlynol o reoli'r seilwaith gwyrdd.

*Amcanion*

- Datblygu prosesau newydd yn y Cyngor i gefnogi gwneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio'r asedau seilwaith gwyrdd yn y fwrdeistref yn ddoeth.
- Darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru fod modd defnyddio trefn gwasanaethau ecosystemau i wireddu canlyniadau cynaliadwy mewn Awdurdod Lleol.

Mae'r naill amcan a'r llall yn fanteisiol wrth ddatblygu model gwaith i strategaethau cenedlaethol ac wrth fynd ati i reoli'r seilwaith gwyrdd yn effeithiol yn lleol.

*Canlyniadau*

- Cymorth effeithiol wrth wneud penderfyniadau i warchod a rheoli'r seilwaith gwyrdd
- Gwneud penderfyniadau'n gyflymach (yn enwedig ym maes cynllunio)
- Cael gwell gwasanaethau ecosystemau o fannau gwyrdd
- Mwy o gyllid i wella'r seilwaith gwyrdd
- Rheoli gwasanaethau ecosystemau yn ganolog i flaenoriaethau CBST
- Tystiolaeth o fecanwaith cyflawni effeithiol ar gyfer Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol/NER.

*Cefndir*

Mae penderfyniadau sy'n effeithio ar Seilwaith Gwyrdd yn benderfyniadau rheoli asedau mewn gwirionedd. Pa safleoedd y mae'n briodol eu datblygu? Beth yw'r ffordd orau o reoli safle er mwyn cael cymaint â phosibl o wasanaethau? Nid oes llawer o wybodaeth o'r fath ar gael ar hyn i'r rhai sy'n

gwneud penderfyniadau ac yn gyffredinol mae mewn iaith sy'n gysylltiedig â materion technegol a'r elfennau sbarduno deddfwriaethol a pholisi. Drwy'r prosiect Systemau Rheoli Bioamrywiaeth, bydd gwybodaeth am asedau bioamrywiaeth yn haws ei defnyddio i gynllunwyr sy'n penderfynu a yw datblygiad yn dderbyniol ai peidio. Bydd y cyfleoedd gorau i gyfoethogi amgylchedd hefyd yn llawer cliriach.

Gellir defnyddio'r un fethodoleg o bedair haen a chofrestr prosiectau i gynllunio pob gwasanaeth ecosystem arall yn ofodol e.e. hamdden, twristiaeth, rheoli dŵr, ymgysylltu â'r gymuned. Os caiff yr holl wasanaethau y gallai asedau seilwaith gwyrdd eu darparu eu cynllunio'n ofodol a'u dadansoddi yn yr un "iaith" o fewn GIS, bydd yn amlwg pa asedau sy'n darparu'r mwyaf o wasanaethau ar hyn o bryd a pha asedau y gellid eu gwella, neu'u rheoli'n wahanol i ddarparu mwy o wasanaethau yn y dyfodol.

Byddai'r wybodaeth haenau yn creu cynllun adnoddau naturiol i Awdurdod Lleol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r penderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd gan bob maes gwaith am reoli asedau. Tra byddent yn darparu ffordd realistig o gynllunio adnoddau naturiol yn genedlaethol, byddai angen i'r systemau hyn ddibynnu ar y systemau cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth yn yr un "iaith". Byddai angen i'r meini prawf a ddefnyddir i sefydlu'r haenau a nodi'r cyfleoedd gwella gorau fod yn gydnaws ar bob graddfa. Bydd rhaid cael graddfeydd cenedlaethol, is-ranbarthol a lleol o fewn y broses genedlaethol. Bydd datblygu'r cynlluniau gorau posibl ar gyfer adnoddau naturiol yn fwyaf effeithiol os bydd yn ystyried anghenion gwneuthurwyr penderfyniadau cenedlaethol a lleol mewn ffordd gydlynol. Bydd y prosiect hwn yn gallu darparu persbectif corff penderfynu lleol wrth ddatblygu trefn genedlaethol.

Byddai cynllun adnoddau naturiol Torfaen yn eistedd ochr yn ochr â'r cynllun datblygu lleol fel cynllun trefnu canolog yn y Cyngor. Byddai'r cynllun adnoddau naturiol yn darparu'r wybodaeth y mae ar yr Awdurdod ei hangen i ddyrannu safleoedd datblygu economaidd yn briodol drwy'r cynllun datblygu lleol ac i warchod asedau pwysig drwy Reoli Datblygu. Byddai'r cynllun adnoddau naturiol hefyd yn darparu cofrestr barod o brosiectau gwneud iawn i helpu i hybu datblygu cynaliadwy.

Mae elfen gref yma o rannu'r un amcanion â'r agendâu gwella cynllunio'n genedlaethol, cymunedau yn gyntaf a chraffu. Nod pob un o'r prosesau hyn yw gwneud y broses gynllunio'n gyflymach; yn fwy effeithiol o ran cyflawni canlyniadau cynaliadwy; a hynny gyda monitro a chraffu effeithiol. Mae'r prosiect yn cynnig ffordd realistig a dichonadwy o greu gwell canlyniadau i'r rhaglenni hyn i gyd yn ogystal ag i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol/NER.

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru'n cynnwys Biliau Cynaliadwyedd, Amgylcheddol a Chynllunio erbyn 2014. Rhaid rhoi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar waith yn llawn erbyn 2014 (yn cynnwys amser i'w harchwilio'n gyhoeddus). Ar hyn o bryd mae'r Awdurdodau Lleol ar amserlen benodedig o ran mabwysiadu'u cynlluniau datblygu lleol (mae archwiliad cyhoeddus Torfaen i fod i ddigwydd ym mis Mehefin 2012). Mae'r gwaith o

ddatblygu ffrydiau polisi, yn cynnwys Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ac NER, ar y gweill.

Gallai canlyniadau'r holl raglenni hyn effeithio ar weithredu'r systemau sy'n cael eu hawgrymu. Yn yr un modd, fodd bynnag, gallai'r systemau arfaethedig fod o fudd i'r rhaglenni hyn.

Yn amodol ar gyllid, gallai prosiect Torfaen gael ei ymestyn tan haf 2013 (pryd y mae'r cynllun datblygu lleol i fod i gael ei fabwysiadu) – gan fwydo i a dysgu o'r rhaglenni deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol.

*Camau arfaethedig ymestyn y prosiect systemau rheoli bioamrywiaeth*
A chymryd y prosiect cyfredol fel Cam 1, awgrymir y camau canlynol: Cam 2: hyd at 31 Mawrth 2012: Ymestyn y prosiect i bob gwasanaeth ecosystem ar seilwaith gwyrdd; Darparu tystiolaeth i raglenni Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol / NER; Cam 3: hyd at 30 Meh 2012: Darparu manylion am systemau tan yr ymchwiliad cyhoeddus; Ei ymgorffori wrth ymdrin â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol; Ei gydlynu â'r graddfeydd cenedlaethol/rhanbarthol; Cam 4: 1 i 30 Meh 2013: Datblygu meini prawf prisio manwl; monitro protocolau a chanllawiau dylunio; Dosbarthu astudiaeth achos.

***Gweithredu a Geisir***

- Gofyn i holl aelodau PBC gefnogi'r prosiect yn ôl y gofyn IE

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Newidiadau i Restr Bryoffytau Ad42**

**Cynhyrchwyd gan: Sam Bosanquet, Plant Link Cymru a Grŵp Arbenigol Rhywogaethau Cymru.**

***Cefndir/Cynnydd***

Seiliwyd rhestr wreiddiol bryoffytau Adran 42 ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth a dim ond un flaenoriaeth o Gymru a ychwanegwyd - *Leptodon smithii*, mwsogl (pluenfwsogl Smith). Ers hynny, ychwanegwyd chwe mwsogl oddi ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth yn 2011; credid yn wreiddiol fod 3 ohonynt wedi darfod amdanynt a darganfuwyd 3 yn newydd i Gymru rhwng 2008 a 2010.

Mae cynhyrchu *A Bryophyte Red Data List for Wales* (Bosanquet a Dines, 2011) wedi'n galluogi i nodi 16 o fwsoglau a llysiau'r afu sydd o dan fygythiad difrifol yng Nghymru. Bydd ychwanegu'r rhain at restr Adran 42 yn caniatáu gweithredu i'w gwarchod. Ymysg y bygythiadau sylweddol iddynt mae newid yn yr hinsawdd, llystyfiant cynyddol gwrs ar ffeniau a thwyni, newidiadau mewn gweithgarwch mwyngloddio a newidiadau yn lefel y dŵr mewn coetiroedd ceunant. Darganfuwyd un mwsogl arall oddi ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth yn newydd i Gymru yn gynnar yn 2011 felly mae angen ychwanegu hwnnw hefyd at restr Ad42.

Mae coetiroedd Cefnforol/Atlantig yn un o gynefinoedd pwysicaf Cymru ac mae llawer ohonynt wedi cael eu dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu'n SoDdGA. Mae bryoffytau cefnforol wedi cael eu hystyried yn 'ddiogel' ers tro byd gan fod y ceunentydd dyfnion y maent yn tyfu ynddynt yn weddol bell oddi wrth ddylanwad dyn, ac nid oedd unrhyw fryoffytau cefnforol wedi cael eu cynnwys ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth oherwydd y gred hon nad oedd bygythiad iddynt. Erbyn hyn mae bygythiad sylweddol ar ffurf cynlluniau pŵer hydro-electrig, sydd â'r potensial i ostwng y lefel lleithder dyngedfennol mewn systemau ceunant a thrwy hynny niweidio mwsoglau a llysiau'r afu na allant oddef dysychu. Mae cydnabod y rhywogaethau cefnforol prinnaf ar restr Adran 42 yn un ffordd o warchod safleoedd, ond mae angen gwarchodaeth ychwanegol ar y cynefin yn ei gyfanrwydd. Mae 'Casgliad o Fryoffytau Ceunant Cefnforol' wedi cael ei restru gan ddefnyddio cyfuniadau o rywogaethau mewn ffordd debyg i'r gymuned Adran 42 o gen Lobarion).

Nid yw rhestr Ad42 yn cynnwys rhywogaethau y credir eu bod wedi darfod amdanynt yng Nghymru. Felly, mae angen tynnu dau rywogaeth sydd wedi diflannu oddi ar y rhestr. Hefyd, efallai y byddai cyfiawnhad i dynnu dau rywogaeth am fod eu statws cadwraeth ym Mhrydain wedi cael ei israddio'n ddiweddar (Hodgetts, 2011) ac am ei bod yn debygol mai arteffact o'r cofnodi lleol yw eu dirywiad tybiedig yn y DU.

Rhoddir manylion llawn am ddethol yr ychwanegiadau arfaethedig at restr bryoffytau Adran 42 yn y ddogfen Excel 'Section 42 bryophyte section 2011'. Os caiff yr awgrymiadau isod eu mabwysiadu byddai 52 o rywogaethau bryoffyt ar restr Adran 42, ynghyd â dynodwyr Ceunant Cefnforol. Mae hyn yn cymharu â 51 o adar, 186 o greaduriaid di-asgwrn-cefn, 78 o blanhigion fasgwlar a 69 o gennau. Mae'r bryoffytau yr awgrymir eu hychwanegu a'u dileu fel a ganlyn:

## 1. Rhywogaethau ar restr Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth ar hyn o bryd, sydd newydd gael eu cofnodi yng Nghymru

Dylid ychwanegu'r rhywogaeth hwn at restr Ad42:

| Grŵp tacson | Rhywogaeth ar Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth i'w hychwanegu at restr Ad42 | Blwyddyn a lleoliad y cofnod | Ffynhonnell y wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Bryoffyt | *Orthotrichum pumilum* | Y Fenni, 2011 | Sam Bosanquet |

## 2. Rhywogaethau y dynodwyd eu bod yn cyflawni meini prawf Adran 42 yn sgil cynhyrchu *A Bryophyte Red Data List for Wales*

Dylai'r rhywogaethau hyn gael eu hychwanegu at restr Ad42:

| Grŵp tacson | Rhywogaethau ar Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth i'w hychwanegu at restr Ad42 | Tystiolaeth Adran 42 |
|---|---|---|
| Bryoffyt | *Aloina rigida* | Dim ond yn bod yng Nghymru ar un safle, CR ar *Bryophyte Red Data List for Wales* |
| Bryoffyt | *Bryum intermedium* | Daeth y cofnod olaf yng Nghymru o Sir y Fflint yn 1988; mae pob un o'r 6 system twyni lle'r arferai dyfu wedi colli ei phoblogaeth |
| Bryoffyt | *Bryum muehlenbeckii* | Nid oes cysylltiad rhwng y ddwy gytref yng Nghymru â'r Alban. Mae angen gorlifo'r rhywogaeth hon yn rheolaidd ac mae'n arbennig o agored i niwed drwy ddatblygiadau pŵer hydro-electrig. |
| Bryoffyt | *Buxbaumia aphylla* | Dim ond tri chofnod yng Nghymru, un o'r 19eg ganrif, nis canfuwyd yn 2007 ar ei unig safle o'r 1990au nac yn 2009 ar ei safle o'r 1960au. Mae angen ymchwilio ar fyrder i ecoleg y rhywogaeth hon ym Mhrydain/Cymru. |
| Bryoffyt | *Cephaloziella massalongii* | Datgelodd arolwg 2011 cytrefi ar 6 safle yng Nghymru, ond mae'r rhan fwyaf o boblogaethau yn eithriadol o fach a bregus. |
| Bryoffyt | *Dicranodontium asperulum* | Y boblogaeth ger Llyn Bochlwyd yw'r un fwyaf deheuol yn y DU a chredir ei bod yn agored i niwed oherwydd newid yn yr hinsawdd neu newidiadau i'r llyn. |
| Bryoffyt | *Fossombronia fimbriata* | Daw mwy na hanner y cofnodion Prydeinig diweddar (ôl-1980) o 6 safle yn sir Benfro. Nid oes mwy na 10 planhigyn mewn unrhyw gytref yng Nghymru ac mae poblogaeth gyfan Cymru yn <40 planhigyn unigol (21 yn sir Benfro, 1 yn sir Gaerfyrddin, 3 ym Mrycheiniog a <10 yn sir Gaernarfon) |
| Bryoffyt | *Grimmia arenaria* | Mae cofnodion diweddar (ôl-1980) o ddim ond 4 o'r 8 |

| | | |
|---|---|---|
| | | safle ym Mhrydain, ac mae llai na 10 clustog mewn tair o'r cytrefi hyn. Mae poblogaeth mor fach a chynefin bregus waliau carreg sych yn golygu fod bygythiad mawr i'r mwsogl hwn. |
| Bryoffyt | *Leiocolea fitzgeraldiae* | Mae Cwm Idwal ar derfyn deheuol dosbarthiad byd-eang *Leiocolea fitzgeraldiae*, sy'n gwneud y rhywogaeth hon yn arbennig o agored i niwed yn sgil newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. |
| Bryoffyt | *Meesia uliginosa* | Yr unig safle yng Nghymru, Tywyn Aberffraw, yw'r un mwyaf deheuol yn y DU. Bu'r dirywiad ym Mhrydain ar ei waethaf yn y de. Mae cynefinoedd twyni tywod yn eithriadol o agored i niwed ac yn anodd eu rheoli. |
| Bryoffyt | *Paraleptodontium recurvifoliu* | Daw'r unig gofnodion diweddar yng Nghymru o Gwm Dyli (1988) a Rhaeadr Ogwen (1990), ac mae poblogaethau ar 6 safle arall yng Nghymru wedi darfod amdanynt yn yr 20fed ganrif. Mae o leiaf 3 safle blaenorol yn geunentydd gyda chynigion pŵer hydro-electrig. |
| Bryoffyt | *Pseudocalliergon lycopodioid* | Yn bod ar safleoedd unigol ar Ynys Môn ac ym Morgannwg, ond wedi darfod amdano yn sir Benfro ers y 1960au. Systemau twyni yw'r safleoedd sy'n weddill, sy'n agored iawn i newid yn sgil newid yn yr hinsawdd. |
| Bryoffyt | *Radula voluta* | Mae cofnodion diweddar ar y rhan fwyaf o'r 12 safle yng Nghymru ond mae dosbarthiad y rhywogaeth hon yn gyfyngedig iawn yng Nghymru, y DU ac Ewrop ac mae'n fregus iawn. |
| Bryoffyt | *Sematophyllum demissum* | Mae holl boblogaeth Prydain yng ngogledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o gytrefi yn eithriadol o fach, yn aml wedi'u cyfyngu i 1 neu 2 graig ar safle, ac un safle sy'n cynnwys y rhan fwyaf o boblogaeth Cymru (a Phrydain, felly). Mae'r rhywogaeth hon yn fregus iawn ar bob safle, ac mae llygredd aer yn dwysáu hynny. |
| Bryoffyt | *Tomentypnum nitens* | Ailymwelwyd â'r 11 safle yng Nghymru yn 2008-2010, dim ond 4 cytref sy'n dal i fodoli, mae problemau dirfawr gyda llystyfiant a phrysgwydd goresgynnol ar bob safle, ac mae llygredd aer yn dwysáu hynny. |
| Bryoffyt | *Tortula canescens* | Dan fygythiad difrifol oherwydd prysgwydd goresgynnol ar lethrau arfordirol. Wedi'i golli efallai oddi ar bob un o'r 6 safle cofnodedig yng Nghymru yn barod, ond mae angen ymchwilio i gofnodion o'r 1970au ar ddau ohonynt. |


## 4. Y Casgliad o Fryoffytau Ceunant Cefnforol

Mae cynefin Bryoffyt Ceunant Cefnforol yn debygol o fod yn bresennol os yw safle'n cynnaf:-

| **Unrhyw un o'r rhywogaethau isod** |
|---|
| *Aphanolejeunea microscopica* |
| *Campylopus setifolius* |
| *Daltonia splachnoides* |
| *Drepanolejeunea hamatifolia* |
| *Hageniella micans* |
| *Harpalejeunea molleri* |
| *Leptoscyphus cuneifolius* |
| *Metzgeria leptoneura* |
| *Paraleptodontium recurvifolium* |

| |
|---|
| *Plagiochila exigua* |
| *Plagiochila heterophylla* |
| *Radula voluta* |
| *Sematophyllum demissum* |
| |
| **Tri neu fwy o'r rhywogaethau isod** |
| *Adelanthus decipiens* |
| *Andreaea megistospora* |
| *Dicranum scottianum* |
| *Fissidens polyphyllus* |
| *Jubula hutchinsiae* |
| *Lepidozia cupressina* |
| *Lepidozia pearsonii* |
| *Radula aquilegia* |
| |
| **Pump neu fwy o'r rhywogaethau isod** |
| *Anastrepta orcadensis* |
| *Colura calyptrifolia* |
| *Douinia ovata* |
| *Heterocladium wulfsbergii* |
| *Hygrobiella laxifolia* |
| *Hygrohypnum eugyrium* |
| *Isothecium holtii* |
| *Marchesinia mackaii* |
| *Plagiochila bifaria* |
| *Plagiochila punctata* |
| *Platyhypnidium lusitanicum* |
| *Porella pinnata* |
| *Rhabdoweisia crenulata* |
| *Sphenolobopsis pearsonii* |
| |
| **Wyth neu fwy o'r rhywogaethau isod** |
| *Bazzania trilobata* |
| *Fissidens bryoides* var. *caespitans* |
| *Hyocomium armoricum* |
| *Lejeunea lamacerina* |
| *Lejeunea patens* |
| *Lophocolea fragrans* |
| *Plagiochila spinulosa* |
| *Saccogyna viticulosa* |
| *Scapania gracilis* |
| *Solenostoma paroicum* |
| *Sphagnum quinquefarium* |

Byddai'r cynefin Bryoffyt Ceunant Arforol Adran 42, o'i ddiffinio fel hyn, yn bresennol ar 85 o safleoedd yng Nghymru, fel y gwelir ar y map isod (sgwariau coch: y Casgliad o Fryoffytau Ceunant Cefnforol yn bresennol; sgwariau llwyd: ceunant wedi'i asesu ond nu chanfuwyd ei fod yn cynnal y Casgliad):-



## 4. Rhywogaethau sydd wedi darfod amdanynt yng Nghymru

Dylai'r rhywogaethau hyn gael eu tynnu oddi ar restr Ad42:

| Grŵp tacson | Rhywogaethau Ad42 sydd wedi darfod amdanynt yng Nghymru | Tystiolaeth |
|---|---|---|
| Bryoffyt | *Atrichum angustatum* | Roedd yr unig gofnod o Gymru wedi'i leoli'n wael o 1926; cymerir ei fod wedi darfod amdano ac nad oes gweithredu priodol |
| Bryoffyt | *Fissidens serrulatus* | Ailarolygwyd yr unig safle yng Nghymru, ym Meirionydd, yn 2009; cymerir ei fod wedi darfod amdano ac nad oes gweithredu priodol |

## 5. Rhywogaethau y mae'r dystiolaeth am ddirywiad yn debygol o fod yn arteffact

Dylai'r rhywogaethau hyn gael eu tynnu oddi ar restr Ad42:

| Grŵp tacson | 1Rhywogaethau Ad42 lle mae'r dystiolaeth yn debyg o fod yn arteffact | Tystiolaeth |
|---|---|---|
| Bryoffyt | *Grimmia elongata* | Wedi'i israddio i VU ar Restr Goch Prydain 2011 ac roedd y dystiolaeth o'i ddirywiad wedi'i seilio ar ddiffyg ailymweld â lleoliadau anghysbell |
| Bryoffyt | *Rhytidiadelphus subpinnatus* | Israddiwyd i NT ar Restr Goch Prydain 2011 gan fod safleoedd newydd wedi cael eu darganfod ac nad yw'r dirywiad yn ddilys mwy na thebyg. |

***Cynllun/Cynigion***

Gofynnwn i PBC dderbyn y diwygiadau uchod yn ffurfiol a bod y rhestr Adran 42 sydd ar gael i'w llwytho i lawr oddi ar wefan PBC yn cael ei newid i'w cynnwys.

***Gweithredu a Geisir***

- Cymeradwyaeth inni gario ymlaen fel yr awgrymir uchod IE/NA